O RODIO GYDA DUW DAW BENDITHION NAWR AC YN DRAGWYDDOL

Nodyn i'r siaradwr:
Helpwch y gynulleidfa i ddeall mai ffordd o fyw yw rhodio gyda Duw. Adeiladwch werthfawrogiad am y fraint sydd gennyn ni o wneud felly

MAE ANGEN ARWEINIAD ARNON NI DRWY GYDOL BYWYD (4 mun.)

Pa riant buasai'n gadael i'w faban gymryd ei gamau cyntaf ar ei ben ei hun?

Mae rhiant cariadus yn cyd-gerdded gyda'i fychan, yn cynnig arweiniad yn ôl yr angen wrth i'r plentyn aeddfedu

Yn aml mae'r Beibl yn defnyddio cerdded fel metaffor i ddisgrifio ein taith drwy fywyd (1Br 22:43; Pre 12:5)

Mae ein tad nefol yn gwybod nid plant bychan newydd gael traed ydyn ni; mae gennyn ni beth mawr o ryddid ganddo (2Co 3:17)

Ond beth bynnag yw'n hoedran, mae Jehofa yn gweld yr angen mawr am gyfarwyddyd sydd arnon ni **[Darllenwch Jeremeia 10:23]**

Yn yr "amserau enbyd" sydd ohoni heddiw gall cerdded fod yn anodd (2Ti 3:1)

Nid oes rhaid inni gerdded ar ein pen ein hunain; fe fedrwn ni gyd-gerdded gyda Duw

BETH MAE'N EI OLYGU I GERDDED GYDA DUW? (6 mun.)

Enghreifftiau yn y Beibl sydd yn ein dysgu beth mae'n ei olygu i gerdded gyda Duw

Rhodiodd Enoch a Noa gyda'r gwir Dduw (Ge 5:24; 6:9)

O ymddiried yn Nuw, ac o ddibynnu arno Ef am gyfarwyddyd, bu i wŷr a gwragedd ffyddlon ac ufudd rodio gydag Ef

Am iddyn nhw gerdded gyda Duw roedden nhw'n gwrthdaro yn erbyn mwyafrif eu hoes, ond roedd hynny'n bris gwerth ei dalu (*w01*-E 9/15 29-31)

Nid yw Duw wedi newid; mae ef yn ein gwahodd i rodio gydag ef heddiw (Mal 3:6)

Rhagfynegodd y Beibl buasai nifer yn ceisio rhodio yn ffyrdd Duw **[Darllenwch Micha 4:1, 2]**

Ond, nid yw'r rhain yn y mwyafrif poblogaidd; nid rhai sydd 'yn troi yn eu rhedfa' ydyn nhw (Jer 8:6)

Mae **Micha 4:5** yn esbonio pam **[Darllen]**

Mae rhodio yn enw Duw yn golygu gwneud ei ewyllys a byw ein bywydau mewn cytgord â'r hyn oll sydd yn rhwym yn Ei enw

SUT MEDRWCH CHI GERDDED GYDA DUW? (9 mun.)

Fe rodiwn ni gyda Duw drwy wrando ar ei lais a gadael iddo gyfeirio ein cam

Dylai'r egwyddorion yng Ngair Duw ein cyfeirio ym mhopeth (Sal 119:105)

Dylai fod "rhodio yn y gwirionedd" yn ffordd o fyw inni (3In 3)

[Adroddwch brofiad o berson a gafodd ei newid gan wirioneddau'r Beibl. Am enghreifftiau, gwelwch y gyfres "The Bible Changes Lives," a gychwynnodd yn *Watchtower* Awst 1, 2008]

Canlynwch ôl traed Crist (1Pe 2:21; *w86*-E 12/1 17-18)

Dangosodd Iesu yr esiampl berffaith o rodio gyda Duw (*w02*-E 8/15 10-14)

Cerddwch gyda'r rhai sy'n cerdded gyda Duw (Mich 4:2)

Mae'n werth pob ymdrech inni fynychu cyfarfodydd Cristnogol (*yb99*-E 253-254; *yb90*-E 244-245; *yb89*-E 210-211)

Wrth wneud penderfyniadau dylen ni ystyried beth fuasai Iesu yn ei wneud (1Co 2:16; *w00*-E 2/15 10-11 par. 2-4)

PA FENDITHION SY'N DOD I'R RHAI SY'N RHODIO GYDA DUW? (8 mun.)

Bendith fawr yw 'byw fel plant goleuni' (Eff 5:8)

Mae'r arweiniad rydyn ni'n ei dderbyn yn ein hamddiffyn rhag maglau anfoesoldeb (*w00*-E 7/15 28-31)

Baglu mae'r rhai sy'n cerdded yn nhywyllwch y byd hwn (Esei 59:8-12)

Mae tywyllwch moesol y byd yn dinistrio teuluoedd; yn aml teimladau o euogrwydd, pryder, a diffyg hunan-werth sy'n dilyn anfoesoldeb

Rydyn ni'n wybodus ynglŷn ag ystyr digwyddiadau'r byd

Mae'r mwyafrif yn y tywyllwch wrth iddyn nhw geisio deall amseroedd mor erchyll, a pham y mae gymaint o bobl yn dioddef

Cael goleuni'r gwirionedd yn y fath bethau sydd yn ein galluogi ni i gerdded gyda gobaith a llawenydd

Gall yr ysbryd glân ein hatgyfnerthu fel y gallwn ni rodio gyda Duw yn wyneb unrhyw anhawster (Php 4:13)

Mae cerdded gyda Duw yn cryfhau ein cyfeillgarwch agos ag ef

Â'r fath ffrind, a oes reswm i ofni beth gall dyn ei wneud i ni? (Sal 118:6)

Petaen ni'n baglu, dylen ni droi at Dduw ac Ef bydd yn ein dyrchafu (Sal 145:14)

Nid yw Jehofa'n gyflym i gefnu ar bechaduriaid; i'r rhai edifeiriol y mae'n 'maddau'n helaeth' (Esei 55:7; Dia 24:16)

Bod â chydwybod lân sydd yn peri inni droedio llwybr bywyd yn hapusach

TAITH GERDDED A ALL BARA AM BYTH (3 mun.)

Rhodd yw bywyd; mae hyd yn oed taith fer ynddi yn fendith

Ac eto mae Gair Duw yn cynnwys ambell alarnad ysbrydoledig ar sail byrder y daith ddynol drwy fywyd (Job 14:1; Sal 90:10)

Mae Jehofa yn awyddus i ni gyd-gerdded ag ef yn dragwyddol (In 3:36)

Bydd taith y rheini sy'n gwrthod dilyn camau Crist yn fyr

Caiff y rheini sy'n cerdded gyda Duw gerdded yn dragwyddol!

[Glynwch yn agos wrth yr amlinelliad hwn, a chadwch at yr amser a bennwyd ar gyfer pob rhan. Does dim rhaid darllen na thrafod pob cyfeiriad. Gweler y llyfr *Ministry School,* tt. 52-55, 166-169]

© 2014 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania